Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Plant sydd â phrofiad o ofal
## Briff Ystadegol 2024

Mawrth 2024



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Plant sydd â phrofiad o ofal
## Briff Ystadegol 2024

Mawrth 2024

**Awduron:**
Siân Thomas, Helen Jones a Joe Wilkes



**Cynnwys:** Mae'r briff hwn ar blant sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru yn diweddaru ein **briff ystadegol** blaenorol ym mis Ionawr 2023.

Mae'n defnyddio data cyhoeddedig i nodi ystod o wybodaeth am blant sydd â phrofiad o ofal, ffactorau am y rhieni, gwariant gwasanaethau cymdeithasol a gwybodaeth am y gweithlu. Mae hefyd yn nodi canlyniadau i blant a phobl ifanc lle caiff y rhain eu mesur a'u cyhoeddi. Mae'n defnyddio data a gasglwyd o ystod o gyhoeddiadau ac hefyd o sefydliadau'r trydydd sector i ategu'r ystadegau swyddogol a gyhoeddir ar **StatsCymru**. Mae'n nodi rhai agweddau ar y maes polisi lle nad yw data'n cael eu cyhoeddi.

**Y cyd-destun polisi:** Ym mis, Mai 2023, cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, **'Os nad nawr, pryd?'. Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal** Roedd hyn yn dilyn adroddiad Pwyllgor Deisebau'r Senedd ynghylch **Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal.** Gallwch ddarllen rhagor am y gwaith craffu hwn yn ein herthygl **Diwygio radical ar gyfer gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.**

**Terminoleg:** Er bod y term 'plant sydd â phrofiad o ofal' yn cael ei ddefnyddio'n helaeth erbyn hyn, mae ystadegau presennol Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at 'blant sy'n derbyn gofal'. Mae gan hyn ystyr gyfreithiol ac mae'n cyfeirio at blant o dan 18 oed sy'n 'derbyn gofal' gan awdurdodau lleol. Mae'r briff hwn felly yn defnyddio 'plant sy'n derbyn gofal' wrth gyfeirio at y data hynny.

**Datgelu:** Gallai data **StatsCymru** sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal gael eu dalgrynnu i'r 5 agosaf er mwyn osgoi datgelu. Felly, efallai na fydd cyfanswm rhai tablau yn cyfateb.

# Cynnwys


**1. Cipolwg** .......... **1**

**2. Dechrau gofal** .......... **2**

Nifer y plant yn derbyn gofal .......... 2

Statws cyfreithiol .......... 2

Nifer y plant o dan 18 oed yn derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth .......... 3

Cyfraddau gofal .......... 5

Rhyw ac Oedran .......... 6

Ethnigrwydd .......... 6

Y rhesymau pam mae angen gofal ar blant .......... 7

Ffactorau'n ymwneud â rhieni .......... 8

Plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches (UASCs) .......... 8

Ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfraddau gofal .......... 8

Ystadegau darparwyr eiriolaeth i rieni .......... 10

Cydbwysedd y llif i mewn i'r system ofal ac allan ohoni dros amser .......... 11

Babanod yn mynd i mewn i ofal .......... 12

Plant i blant sydd â phrofiad o ofal .......... 14

**3. Mewn gofal** .......... **16**

Math o leoliad .......... 16

Nifer y lleoliadau yn ystod y flwyddyn ..... 16

Lleoliad y gofal ..... 17

Mabwysiadu plant sy'n derbyn gofal ..... 17

Newid ysgol yn ystod y flwyddyn ..... 17

Canlyniadau addysgol ..... 17

**4. Gadael gofal ..... 20**

Llety a digartrefedd ..... 20

Rhesymau dros orffen derbyn gofal, yn 16 oed a hŷn ..... 20

Pobl yn gadael gofal ar eu pen-blwydd yn 19 oed ..... 21

Plant 16 oed a hŷn yn gorffen derbyn gofal a rheswm dros ddim cymwysterau ..... 22

Myfyrwyr â phrofiad o ofal mewn addysg uwch ..... 23

Iechyd a llesiant ..... 23

**5. Trawsbynciol ..... 26**

Gwariant refeniw y gwasanaethau cymdeithasol ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal ..... 26

Y gweithlu ..... 26

Eiriolaeth ..... 29

**6. Argaeledd data ..... 32**

# Cipolwg

Nodir yr ystadegau, y ffynonellau a'r nodiadau cysylltiedig hyn drwy gydol yr adroddiad hwn.


- Ar 31 Mawrth 2023 roedd 7,210 o blant yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol Cymru, sy'n gynnydd o 26 y cant ers 2014. Cynyddodd **y gyfradd ofal yng Nghymru** 83 y cant rhwng 2003 a 2022, gyda mwy nag 1 y cant o blant o dan 18 mewn gofal ar hyn o bryd (gweler **Ffigur 1.1: Plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth**).
- Mae cyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal yn amrywio rhwng awdurdodau lleol o 52 i bob 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed yn Sir Gaerfyrddin i 200 o bob 10,000 yn Nhorfaen (gweler **Map 1: Nifer y plant o dan 18 oed ar 31 Mawrth 2023 yn derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth; fesul ardal**).
- Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, roedd 26 y cant o blant sy'n derbyn gofal wedi byw mewn dau leoliad neu fwy yn ystod y 12 mis blaenorol (gweler **Ffigur 2.2: Plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth ar sail nifer y lleoliadau yn ystod y flwyddyn; 2023**).
- Mae data ar blant sy'n cyflawni 5 TGAU gradd A*-C gan gynnwys mathemateg a Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf yn dangos bod gan blant sy'n derbyn gofal gyrhaeddiad addysgol is o'i gymharu â disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phob disgybl yn 2017, 2018 a 2019 (y data diweddaraf sydd ar gael) (gweler **Ffigur 2.4: Canran y plant sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 2016/17 i 2018/19**).
- Nid oes ystadegau'n cael eu casglu na'u cyhoeddi'n rheolaidd sy'n ymwneud â nifer y rhieni sydd â phrofiad o ofal y mae eu plant eu hunain yn cael eu cymryd oddi arnynt dros dro neu'n barhaol. Mae'r wybodaeth a gasglwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn awgrymu bod plant biolegol o leiaf traean o'r rhieni sydd â phrofiad o ofal eu hunain wedi cael eu tynnu oddi arnynt (gweler **Plant i blant sydd â phrofiad o ofal**).
- Mae'r ffigyrau diweddaraf ar gyfer 2021-22 yn dangos bod 301 o bobl sy'n gadael gofal yn ddigartref yn ystod y cyfnod hwnnw o 12 mis. Nid yw ystadegau cyhoeddedig yn dweud wrthym pa ganran yw hyn o'r boblogaeth berthnasol o bobl ifanc sy'n gadael gofal (gweler **Llety a digartrefedd**).
- Rhwng 2013–14 a 2022-23 bu cynnydd o 57 y cant yn y gwariant ar blant sy'n derbyn gofal (gweler **Ffigur 4.1: Cyfanswm gwariant refeniw y gwasanaethau cymdeithasol ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal; 2013-14 i 2022-23 (£ miloedd**).

# 1. Dechrau gofal

## Nifer y plant yn derbyn gofal

Ar 31 Mawrth 2023 roedd **7,210** o blant yn derbyn gofal yng Nghymru, sy'n cymharu â 5,745 ar 31 Mawrth 2014, sef **cynnydd o 26 y cant**. Yn 2021 roedd 7,240 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru, y nifer uchaf a gofnodwyd ers 2003. Rhwng 2022 a 2023 bu cynnydd o 2 y cant o 155 o blant yn derbyn gofal.

**Ffigur 1.1: Plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth**





**Ffynhonnell:** StatsCymru, **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran**

## Statws cyfreithiol

Ymhlith y plant yn derbyn gofal mae'r rhai ar orchmynion gofal a phlant eraill y mae awdurdodau lleol darparu llety iddynt. Mae rhai plant yn derbyn gofal hefyd am fod awdurdodau lleol yn darparu llety at ddibenion seibiant - nid yw'r plant hyn wedi'u cynnwys yn y ffigyrau isod. Mae'r data ar gyfer y 10 mlynedd diwethaf yn dangos bod canran y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu o 64.6 y cant (3,710) yn 2014 i 81.7 y cant (5,890) yn 2023.

**Ffigur 1.2: Plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl statws cyfreithiol**




**Ffynhonnell:** StatsCymru, **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a statws cyfreithiol**

## Nifer y plant o dan 18 oed yn derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth


I bob 10,000 o'r boblogaeth yng Nghymru roedd 91 plentyn yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2014, gan gynyddu i 117 yn 2021 a gostwng i **116 fesul 10,000** yn 2023.

**Amrywiad awdurdodau lleol:** O edrych ar nifer y plant o dan 18 yn derbyn gofal, fesul 10,000 o'r boblogaeth, fesul awdurdod lleol. Ar 31 Mawrth 2023 dangosir mai **Torfaen** sydd â'r gyfradd uchaf, sef 200, a **Sir Gaerfyrddin** sydd â'r gyfradd isaf, sef 52 o blant yn derbyn gofal fesul 10,000 o boblogaeth o dan 18 oed.

**Cyfraddau yn Lloegr:** Yn Lloegr, cynyddodd nifer y plant a oedd yn derbyn gofal fesul 10,000 o bobl o dan 18 oed, o 66 ym mhob 10,000 yn 2019 i **71 ym mhob 10,000 yn 2023**. Mae cyfradd 2023 yn Lloegr (71 fesul 10,000) yn is na'r gyfradd ar gyfer Cymru (116 fesul 10,000), er bod **ffigurau ystadegol yr Adran Addysg** yn datgan:

Data is collected and published independently by each of the four countries in the UK. Although there are similarities between the data collected by the four nations, there are also differences, which may be down to different policies and legislation, and differing historical data collections.

**Map 1: Nifer y plant o dan 18 oed ar 31 Mawrth 2023 yn derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth; fesul ardal**



**Ffynonellau:**

Cymru - StatsCymru, **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn**

Lloegr - Adran Addysg, **Children looked after in England including adoptions 2022**


Nodiadau: Mae cyfraddau fesul 10,000 o blant o dan 18 oed yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Cyfraddau gofal

Cyhoeddodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru y ddogfen, **Gwasanaethau cymdeithasol a chyfraddau gofal plant yng Nghymru: Arolwg o'r sector** ym mis Medi 2021. Yn yr adroddiad nodwyd bod awdurdodau lleol wedi lleihau cyfraddau gofal os oeddent wedi lleihau'r gyfradd plant mewn gofal o 10 y cant neu fwy dros y pum mlynedd diwethaf. Nodwyd bod cyfraddau gofal awdurdodau lleol yn cynyddu os oedd cyfradd y gofal wedi cynyddu mwy na chyfartaledd Cymru (21 y cant) dros y pum mlynedd diwethaf.

Er bod cynnydd neu ostyngiad mawr mewn awdurdodau lleol, mae adroddiad y Ganolfan yn egluro yn y dadansoddiad nad oedd ganddyn nhw gyfradd gofal is neu uwch wrth ystyried amddifadedd. Daw Sir Benfro i'r categori hwn gyda chynnydd uchel ond mae'r gyfradd gofal yn dal i fod yn gymharol isel.

**Ffigur 1.3: Awdurdodau lleol â chyfraddau gofal cynyddol a gostyngol a ddewiswyd i'w cymharu (Adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru 2021)**





**Ffynhonnell:** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, **Gwasanaethau cymdeithasol a chyfraddau gofal plant yng Nghymru: Arolwg o'r sector, 2021**

## Rhyw ac Oedran

Mae ystadegau ar nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ôl rhyw ac oedran ar gael ar wefan StatsCymru wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae hyn yn golygu efallai na fydd rhai o'r cyfansymiau yn cyfateb i'r rhai mewn ffigurau eraill. Bechgyn sydd i gyfrif am 54 y cant o gyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae dros hanner (59 y cant) o'r plant sy'n derbyn gofal yn 10 mlwydd oed neu'n hŷn.

**Ffigur 1.4: Canran y plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2023 yn ôl rhyw ac oedran**





**Ffynhonnell:** StatsCymru, **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran**

## Ethnigrwydd

Lle'r oedd ethnigrwydd yn hysbys, roedd 88.5 y cant o blant oedd yn derbyn gofal yn 2022-23 wedi nodi eu grŵp ethnig fel gwyn, 4.3 y cant fel grŵp ethnig cymysg, 3.1 y cant fel grwpiau ethnig eraill, 2.5 y cant fel Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig ac 1.6 y cant fel Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Brydeinig.

Yn ôl data o Gyfrifiad 2021, roedd 90.2 y cant o blant 0-17 oed o gefndir ethnig gwyn, roedd 3.6 y cant o gefndir ethnig cymysg neu aml-ethnigrwydd, roedd 1.3 y cant o gefndir ethnig arall, roedd 3.7 y cant o gefndir ethnig Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig, ac roedd 1.3 y cant o gefndir ethnig Du /Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd.

### Ffigur 1.5: Plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl ethnigrwydd; 2021-22





**Ffynhonnell:** StatsCymru, **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol ac ethnigrwydd**

## Y rhesymau pam mae angen gofal ar blant

Mae'r data ar blant sy'n dechrau derbyn gofal yn dangos pam y dechreuodd plant gael gofal, a **cham-driniaeth neu esgeulustod oedd y rheswm ar gyfer 58.0 y cant** o blant (1,105), yna y teulu o dan straen acíwt (16.3 y cant, 310) ac yna camweithrediad teuluol (12.1 y cant, 230).

### Ffigur 1.6: Canran y plant sy'n dechrau derbyn gofal yn ôl yr angen am ofal yng Nghymru; 2021-22





Nid yw'n cynnwys aflonyddwch mabwysiadu a oedd yn llai na 5 o blant (0.3%).

Ffynhonnell: StatsCymru, **Plant sy'n dechrau derbyn gofal yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a'r angen am ofal**

## Ffactorau'n ymwneud â rhieni

Mae Llywodraeth Cymru'n casglu rhywfaint o ddata sy'n mesur 'nodweddion a phriodoleddau' plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol. Mae'r data ar gyfer plant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2022 yn dangos mai salwch meddwl rhieni (43 y cant) oedd y ffactor mwyaf cyffredin, wedi'i ddilyn gan gamdrin domestig (31 y cant) neu gamddefnydd rhieni o sylweddau neu alcohol (31 y cant).

**Ffigur 1.7: Ffactorau yn ymwneud â rhieni plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2021**




**Ffynhonnell:** StatsCymru, **Ffactorau'n ymwneud â rhieni plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl mesur a blwyddyn**

## Plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches (UASCs)

Mae'r ystadegau diweddaraf ar **Plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol** yn dangos cynnydd sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Mae nifer Cymru gyfan wedi cynyddu o 110 o blant yn 2022 i 260 o blant yn 2023. Fel yn y flwyddyn flaenorol, Caerdydd sydd â'r nifer uchaf o blant, fodd bynnag, mae'r niferoedd ar draws awdurdodau lleol eraill Cymru wedi cynyddu yn y ffigyrau diweddaraf.


## Ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfraddau gofal

Mae adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, **Gwasanaethau cymdeithasol a chyfraddau gofal plant yng Nghymru: Arolwg o'r sector** yn dadansoddi canlyniadau arolwg o 792 o weithwyr cymdeithasol ac arweinwyr ym maes gofal cymdeithasol plant ledled Cymru. Canfu fod y gyfradd ofal yng Nghymru wedi

cynyddu 83 y cant rhwng 2003 a 2022, gyda mwy nag 1 y cant o blant mewn gofal ar hyn o bryd.

Roedd yr arolwg yn ceisio deall yr hyn y mae'r rhai sy'n gweithio yn y sector yn ei gredu allai fod yn llywio'r cyfraddau gofal a gofynnodd pa ffactorau sy'n dylanwadu fwyaf ar y cynnydd mewn cyfraddau gofal yng Nghymru. Mae Ffigur 1.8 yn dangos bod yr ymatebwyr yn teimlo mai'r rhesymau mwyaf dros y cyfraddau gofal uwch oedd **mwy o gam-drin domestig gyda 78.6 y cant** o ymatebwyr yn dweud bod hyn yn ffactor pwysig neu bwysig iawn. Dilynwyd hyn gan doriadau mewn gwasanaethau cyffredinol i deuluoedd (66.8 y cant) a thoriadau mewn gwasanaethau cymorth i deuluoedd (66.7 y cant).


### Ffigur 1.8: Cyfran yr ymatebion i ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfraddau gofal




**Ffynhonnell:** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, **Atodiadau: Gwasanaethau cymdeithasol a chyfraddau gofal plant yng Nghymru – Arolwg o'r sector** - Tabl D1

Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr pa asiantaethau neu grwpiau ddylanwadodd fwyaf ar y tebygolrwydd y byddai plant mewn gofal yn eu hardal. Roedd yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol o ddatgan gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr llinell, gydag 84.6 y cant yn datgan bod hyn yn ffactor pwysig neu bwysig iawn. Ac yna, barnwyr a'r llys (82.2 y cant) ac uwch reolwyr yn yr awdurdod lleol (80.7 y cant) fel y nodir yn Ffigur 1.9.

**Ffigur 1.9: Barn yr ymatebwyr am ddylanwad asiantaethau neu grwpiau ar gyfradd gofal yn eu hawdurdod lleol**





**Ffynhonnell:** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, **Atodiadau: Gwasanaethau cymdeithasol a chyfraddau gofal plant yng Nghymru – Arolwg o'r sector** - Tabl D2

## Ystadegau darparwyr eiriolaeth i rieni

Mae **Prosiect Reflect Cymru** Barnardo's Cymru yn darparu cymorth i fenywod (a phartneriaid) y mae un plentyn neu fwy wedi'u cymryd o'u gofal yn barhaol.

Mae'n casglu gwybodaeth am anghenion ar y pryd ac anghenion hanesyddol rhieni plant sy'n derbyn gofal. Mae Ffigur 1.10 yn nodi gwybodaeth o 2022-23 ac yn dangos bod **88 y cant o rieni wedi profi trais domestig** a bod 64 y cant wedi profi camdriniaeth/esgeulustod hanesyddol.

**Ffigur 1.10: Anghenion ar y pryd ac anghenion hanesyddol rhieni plant sy'n derbyn gofal**




**Ffynhonnell:** Barnardo's, Reflect Cymru


## Cydbwysedd y llif i mewn i'r system ofal ac allan ohoni dros amser

Mae Ffigur 1.11 yn dangos y nifer sy'n dechrau ac yn gorffen yn y system ofal a chydbwysedd o ran plant sy'n weddill yn y system ofal rhwng 2013 a 2023.

Rhwng 2013 a 2020 roedd tua 2,000 o blant a phobl ifanc yn flynyddol wedi dod i mewn i'r system ofal, gydag uchafswm o 2,230 yn 2017, gan ostwng i 1,690 erbyn 2022. Rhwng 2022 a 2023, cynyddodd y nifer a ddaeth i mewn i 1,905. Fe wnaeth nifer y plant a phobl ifanc a wnaeth adael y system ofal ostwng o 2015 i 2020 ac yna dechreuodd godi yn 2021 a 2022. Y nifer a adawodd y system ofal yn 2023 oedd 1,770.

Mae'r 'cydbwysedd' rhwng 'dechrau' a 'gorffen' yn cael ei ddangos gan y llinell duedd yn Ffigur 1.11. Yn 2015 a 2022 roedd mwy yn gorffen nac yn dechrau, gan arwain at yr hyn y cyfeiriodd methodoleg Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ato fel 'cydbwysedd negyddol'. Yn y blynyddoedd eraill roedd cydbwysedd cadarnhaol gyda mwy yn dechrau nag yn gorffen. Yn ei dadansoddiad, mae'r Ganolfan yn rhybuddio nad oes modd cymharu'r ddau fesur yn uniongyrchol gan fod un yn cwmpasu'r flwyddyn gyfan a chipolwg yw'r llall.

**Ffigur 1.11 Cydbwysedd y llif i mewn i'r system ofal ac allan ohoni dros amser**




**Ffynonellau:**

Dechrau - StatsCymru, **Plant sy'n dechrau derbyn gofal yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a'r angen am ofal**

Gorffen – StatsCymru, **Cyfnodau'n dod i ben i blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a rheswm dros ddod i ben** (heb gynnwys Pennod yn dod i ben a phennod newydd yn dechrau ar yr un diwrnod neu'r diwrnod canlynol)

Cydbwysedd - ystadegau llai nifer sy'n gorffen gan ddefnyddio methodoleg Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, **Plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru: Llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal:**

## Babanod yn mynd i mewn i ofal

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Arsyllfa Cyfiawnder Teulu Nuffield ymchwil yn ymwneud â **Deall llwybrau gofal a sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer babanod**

**yng Nghymru.**

Dyma'r seithfed adroddiad yn y gyfres Born into Care, a'r cyntaf i ddefnyddio data a gasglwyd gan awdurdodau lleol ar bob plentyn mewn gofal er mwyn deall profiadau gofal a chanlyniadau'r gofal hwnnw ar fabanod o dan flwydd oed. Cyfeirir at blant o dan flwydd oed fel babanod a babanod o dan 2 wythnos oed fel babanod newydd-anedig.


Canfu fod 6,333 o fabanod wedi dod i mewn i ofal am y tro cyntaf yng Nghymru rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Mawrth 2021. O'r babanod hyn, roedd 45 y cant (2,879) o dan 4 wythnos oed. Roedd dros draean (38 y cant, 2,430) yn fabanod newydd-anedig.

- Yn 2020/21, daeth 353 o fabanod i ofal am y tro cyntaf - cynnydd o 54 y cant ers 2003/4, pan ddaeth 230 o fabanod i ofal am y tro cyntaf. Amrywiodd nifer y babanod a ddaeth i mewn i ofal yn y blynyddoedd eraill. Er enghraifft, daeth 347 o fabanod i mewn i ofal yn 2009/10 o'i gymharu â 276 yn y flwyddyn flaenorol, gan godi i 451 yn 2018/19 cyn disgyn eto yn 2019/20 a 2020/21.
- Er bod nifer y babanod o dan flwydd oed yn y boblogaeth wedi bod yn gostwng yng Nghymru ers 2012, mae'r nifer sy'n dod i mewn i ofal dros amser wedi cynyddu.
- Yn 2018/19, roedd yr achosion uchaf a gofnodwyd o fabanod yn dod i mewn i ofal am y tro cyntaf yng Nghymru dros gyfnod yr astudiaeth, lle daeth 141 o fabanod o bob 10,000 yn y boblogaeth i ofal. Erbyn 2020/21 roedd y gyfradd achosion wedi gostwng ychydig i 120 fesul 10,000, i fyny o 74 o bob 10,000 yn 2003/4.
- Roedd cryn amrywiaeth yn y gyfradd o achosion o fabanod yn dod i mewn i ofal am y tro cyntaf rhwng y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, gyda 7 awdurdod lleol â chyfraddau uwch na'r cyfartaledd o achosion, a 9 awdurdod lleol â chyfraddau is na'r cyfartaledd p achosion. Mae cysylltiad ag amddifadedd ardal, gyda chyfran y babanod sy'n dechrau gofal yn cynyddu gyda lefelau uwch o amddifadedd, er bod angen trin y canfyddiad hwn yn ofalus gan fod data ar amddifadedd ar goll am 20 y cant o'r sampl.
- O fewn y tair ardal barnwr teulu dynodedig (DFJ), ychydig iawn o amrywiad oedd yng nghyfraddau'r achosion rhwng awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, roedd rhywfaint o amrywiad rhwng awdurdodau lleol yn ardal Caerdydd a De-ddwyrain Cymru, a chryn amrywiad rhwng awdurdodau lleol yn Abertawe a De-orllewin Cymru.

Gan ddefnyddio adroddiad 2019. mae'r ffigur 1.12 isod yn dangos nifer y babanod newydd-anedig fesul 10,000 o enedigaethau byw sy'n destun achos gofal o fewn

pythefnos i'w geni, fesul blwyddyn. Roedd tua 40 y cant y flwyddyn rhwng 2011 a 2015. O 2015, bu cynnydd yn y niferoedd i 83 yn 2018.

**Ffigur 1.12 Babanod newydd-anedig yn destun achos gofal o fewn pythefnos i'w geni fesul 10,000 o enedigaethau byw yng Nghymru**




Ffynhonnell: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield **Mewn gofal o'u geni: babanod newydd-anedig a phlant bach mewn achosion gofal yng Nghymru** Hydref 2019

## Plant i blant sydd â phrofiad o ofal

Ar hyn o bryd nid oes ystadegau'n cael eu casglu na'u cyhoeddi'n rheolaidd sy'n ymwneud â nifer y rhieni sydd â phrofiad o ofal y mae eu plant eu hunain yn cael eu cymryd oddi arnynt dros dro neu'n barhaol.

Mae Pwyllgor Deisebau'r Senedd wedi cymryd tystionaeth ar ddeiseb yn galw am **[G]asglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn**

Fel rhan o hyn, rhoddodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru **ddata cipolwg o Abertawe** gan nodi gwybodaeth am 380 o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol ym mis Mawrth 2022. Awgryma bod 21 o'r rhain yn rhieni ac roedd plant 14 ohonynt yn dal i fyw gyda nhw. O'r garfan o rieni sydd wedi bod mewn gofal, roedd 5 o dan 18 oed pan anwyd y plentyn (yr ieuengaf yn 15) ac roedd 16 rhwng 18 a 22 oed. Mae'n ymddangos bod hyn yn awgrymu bod **plant yn cael eu cymryd oddi ar draean o**

**rieni sydd â phrofiad o ofal.**

Yn adroddiad ei Ymchwiliad i Blant â Phrofiad o Ofal, dywedodd **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

> Dywedodd NYAS a CAFCASS Cymru wrthym nad oes modd gwybod i sicrwydd faint o fenywod sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael plant a faint o'r plant hynny sy'n mynd drwy brosesau amddiffyn plant.

Ysgrifennodd at **Gadeirydd Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan ADSS Cymru** yn gofyn am wybodaeth ychwanegol ond **dywedwyd** nad oedd data Cymru ar gael.

Roedd hyn yn dilyn adroddiad Pwyllgor Deisebau'r Senedd ynghylch **Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal.** Rhoddodd Dr Louise Roberts, sy'n rhan o CASCADE, y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant ym Mhrifysgol Caerdydd drosolwg o'r astudiaeth ymchwil bum mlynedd a wnaed rhwng 2014 a 2019 sy'n ymchwilio i'r heriau y mae rhieni sydd â phrofiad o ofal yn eu hwynebu. Canfu'r Pwyllgor

> Mae'r data'n dangos bod 26 y cant o blant wedi'u gwahanu oddi wrth y ddau riant biolegol. Fodd bynnag, heb ddata a gesglir yn rheolaidd, nid yw'n hawdd dehongli beth mae'r ffigurau'n ei olygu.

Argymhellodd y Pwyllgor Deisebau:

> Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod data'n cael eu casglu'n rheolaidd mewn perthynas â faint o bobl ifanc mewn gofal neu sydd wedi gadael gofal (hyd at 21 oed) sy'n beichiogi, a faint o'u plant sy'n aros gyda'u rhiant/rhieni, a gaiff eu gosod mewn gofal maeth neu gydag aelodau o'r teulu neu eu gosod i'w mabwysiadu. Mae dysgu am y canlyniadau i deuluoedd yn bwysig er mwyn llywio ein dealltwriaeth fel y gellir datblygu systemau cefnogi ymhellach a chynllunio gwasanaethau yn unol â hynny. Yn y cyfamser rydym yn croesawu cynnig y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnal arolwg sy'n rhoi cipolwg ar y sefyllfa o ran rhieni sydd â phrofiad o ofal ym mhob awdurdod lleol.

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad ym mis Mehefin 2023 oedd 'derbyn mewn egwyddor' gan ddweud nad oes ganddi'r ffynhonnell ddata "ar hyn o bryd i gasglu'r data sy'n cael ei amlinellu yn argymhelliad y Pwyllgor," a dywedodd:


> Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i archwilio argaeledd y data gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ac awdurdodau lleol. Yn ogystal, bydd y Grŵp Cyflawni Trawsnewid yn ystyried casglu'r data hwn fel rhan o'i waith ar fetrigau ar gyfer gwasanaethau plant.

# 2. Mewn gofal

## Math o leoliad

O'r 7,210 o blant oedd yn derbyn gofal yn 2023, roedd y mwyafrif (68.7 y cant) mewn lleoliadau maeth, ac yn dilyn hynny, wedi'u lleoli gyda'u rhieni eu hunain neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant (14.5 y cant) ac roedd 10.1 y cant mewn lleoliadau preswyl.

**Ffigur 2.1: Plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl math o leoliad; 2023**




**Ffynhonnell:** StatsCymru, Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a math o leoliad

## Nifer y lleoliadau yn ystod y flwyddyn

Roedd brod dri chwarter (74 y cant, 5,350) o blant oedd yn derbyn gofal wedi cael un lleoliad yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn golygu bod **26 y cant o'r plant oedd yn derbyn gofal wedi cael dau leoliad neu fwy yn y 12 mis blaenorol.** Mae hyn yn cynnwys 1,190 neu 17 y cant o'r plant oedd yn derbyn gofal wedi cael dau leoliad a 670 neu 9 y cant o blant wedi cael tri lleoliad neu fwy.

**Ffigur 2.2: Plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth ar sail nifer y lleoliadau yn ystod y flwyddyn; 2023**





**Ffynhonnell:** StatsCymru, Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, nifer y lleoliadau yn ystod y flwyddyn a mesur

## Lleoliad y gofal

Roedd dros hanner (63.5 y cant, 4,580) y plant oedd yn derbyn gofal wedi cael eu lleoli o fewn i'w hawdurdod lleol, ac **roedd 25.5 y cant (1,836) wedi'u lleoli y tu allan i'w hawdurdod lleol** yng Nghymru a 6.5 y cant (470) wedi'u lleoli y tu allan i Gymru.

**Ffigur 2.3: Plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl lleoliad y gofal, 2023**




**Ffynhonnell:** StatsCymru, **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a lleoliad eu gofal**

## Mabwysiadu plant sy'n derbyn gofal

Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, dengys **data** bod 245 o blant oedd yn derbyn gofal wedi cael eu mabwysiadu. Mabwysiadwyd dros ddwy ran o bump (43 y cant, 105) mewn 2 i 3 blynedd, mabwysiadwyd 31 y cant mewn 1 i 2 flynedd, 16 y cant mewn 3 i 4 blynedd a 6 y cant mewn 4 i 5 mlynedd. Roedd y mwyafrif (69 y cant, 170) o blant oedd yn derbyn gofal a fabwysiadwyd yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth o dan 1 flwydd oed.

## Newid ysgol yn ystod y flwyddyn

Mae'r **data Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol** yn cynnwys data ar nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a gafodd brofiad o **newid ysgol un neu fwy o weithiau** yn ystod y flwyddyn (ac eithrio trefniadau pontio, symudiadau'n gysylltiedig â mabwysiadu neu symud cartref). Dengys y ffigurau diweddaraf ar gyfer **2021-22** **bod 413 o blant wedi symud unwaith neu fwy yn y cyfnod 12 mis hwnnw.** Mae **ystadegau** cyhoeddedig yn awgrymu bod y 413 hwn o gyfanswm o tua 5,021 o blant oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol Cymru.

## Canlyniadau addysgol


Ychydig iawn o ddata a gaiff eu cyhoeddi ynghylch profiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, er enghraifft nifer yr adegau y maent yn symud ysgol neu'r

canlyniadau addysgol y maent yn eu cyflawni yn ystod eu gyrfaoedd ysgol. Gweler yr adran yn y briff ar adael gofal i weld y canlyniadau ôl-18.

Mae rhywfaint o ddata hanesyddol ar gael ar ganlyniadau addysgol yng nghyfnod allweddol 4 yr ydym wedi'u cymharu â chanlyniadau addysgol pob disgybl a phob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a fydd yn parhau i gael eu defnyddio fel y mesur diofyn ar gyfer amddifadedd nes y cyflwynir y ddarpariaeth i bawb.

Mae ffigur 2.4 isod yn dangos canran y plant sy'n ennill 5 TGAU ar radd A*-C gan gynnwys mathemateg a Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf. Mae cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn is o'i gymharu â disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phob disgybl yn 2017, 2018 a 2019.

**Ffigur 2.4: Canran y plant sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 2016/17 i 2018/19**



**Ffynonellau:** StatsCymru, **CCyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl mesur a blwyddyn, Mesurau Interim CA4  yn ôl Blwyddyn, o 2018/19 a Mesurau Interim CA4 yn ôl Blwyddyn, o 2018/19**

(a) Mae'n cynnwys pob disgybl 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd

(b) Mae'r ffigyrau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal am y flwyddyn ar 31 Mawrth yn hytrach na'r flwyddyn academaidd

(2) Trothwy cynhwysol Lefel 2 yw nifer y cymwysterau sy'n cyfateb i 5 TGAU gradd A*-C gan gynnwys mathemateg a Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg iaith gyntaf

(d) Gall disgyblion sy'n derbyn gofal hefyd fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.  Yn 2017, roedd 30 y cant o blant oedd yn derbyn gofal yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a 32 y cant yn gymwys yn 2018 a 2019

# 3. Gadael gofal

Mae'r **Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol** yn cynnwys data ar nifer y rhai sy'n gadael gofal yng nghategorïau 2, 3 a 4, fesul awdurdod lleol sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y 12 mis ers gadael gofal. Mae hefyd yn cynnwys **ystadegau ar Gynlluniau Llwybr.**

Mae ychydig o ddata hanesyddol wedi'u cyhoeddi hefyd o ran canlyniadau plant sy'n derbyn gofal pan maen nhw wedi gadael gofal: **Pobl sy'n gadael gofal**

## Llety a digartrefedd

Mae'r **Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol** hefyd yn cynnwys data ar gyfanswm nifer y rhai sy'n gadael gofal sy'n profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014) fesul awdurdod lleol. Dengys y ffigyrau diweddaraf ar gyfer **2021-22** **bod 301 o bobl sy'n gadael gofal yn ddigartref yn ystod y cyfnod hwnnw o 12 mis**. Nid yw ystadegau cyhoeddedig yn dweud wrthym pa ganran yw hyn o'r boblogaeth berthnasol o bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Er bod pryderon ynghylch nifer y rhai sy'n gadael gofal ac sy'n cael profiad o **ddigartrefedd** neu'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid, nid yw'n arferol i ddata gael eu cyhoeddi. Canfu adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn 2023 fod profiad o fod mewn gofal yn "llwybr rhagweladwy" i ddigartrefedd ac mae'n nodi bod cymaint ag 1 o bob 4 person sy'n gadael gofal yn ddigartref pan fyddant yn troi'n 18 oed. Ar y sail honno, mae **llythyr diweddar y Pwyllgor at y Gweinidog Newid Hinsawdd** yn nodi ei ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Mae data o'r cyfrifiad plant mewn gofal yn awgrymu bod 670 (95.7 y cant) o'r 700 o blant (16 oed a hŷn) a orffennodd dderbyn gofal ar 31 Mawrth 2022 yn y categori o fod mewn llety addas.

## Rhesymau dros orffen derbyn gofal, yn 16 oed a hŷn

O'r 710 pennd a orffennodd ar gyfer plant yn derbyn gofal (16 oed a hŷn) yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, daeth 180 i ben oherwydd eu bod yn 18 oed a pharhau i fyw gyda chyn-riant(rhieni) maeth mewn trefniant Pan Fydda i'n Barod. Symudodd 165 arall i drefniadau byw'n annibynnol ac nid oeddent yn derbyn gofal mwyach, tra bod 140 wedi dychwelyd adref i fyw gyda rhieni, perthnasau neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant.

**Ffigur 3.1: Penodauy'n gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (16 oed a hŷn) yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl rheswm dros orffen**




**Ffynhonnell:** Stats Cymru, **Penodau sy'n gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (16 oed a throsodd) yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw a rheswm dros orffen,** Cafodd y niferoedd eu hatal ar gyfer grwpiau â llai na phump o blant. Mae'r rhain yn cynnwys mabwysiadu (gorchymyn mabwysiadu a roddwyd gan y llys ar ddyddiad y daeth y bennod i ben); a gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig a wnaed i ofalwyr ar wahân i gyn-ofalwyr maeth.

## Pobl yn gadael gofal ar eu pen-blwydd yn 19 oed

Nid yw'r set ddata hon gan Lywodraeth Cymru wedi'i diweddaru ers 2016.

- Roedd mwyafrif y rhai oedd yn gadael gofal (93 y cant o 495) mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol (yn unol â chyfrifoldebau statudol) ar eu pen-blwydd yn 19 yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Ni chaiff y ffigurau hyn eu

diweddaru mwyach.


- Nid oedd dros draean o'r rhai'n gadael gofal (39 y cant o 465) mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar eu pen-blwydd yn 19 ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Ni chaiff y **ffigurau** hyn eu diweddaru mwyach.

## Plant 16 oed a hŷn yn gorffen derbyn gofal a rheswm dros ddim cymwysterau

Ni chaiff y data hyn eu diweddaru mwyach ond mae'r **data cyhoeddedig diweddaraf** o 2016 yn dangos nad oedd gan 23 y cant o blant 16 oed a hŷn sy'n gorffen derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth ddim cymwysterau.

Y rheswm mwyaf cyffredin oedd, 'ni wnaeth y person ifanc sefyll arholiad, neu nid oedd disgwyl iddo/iddi sefyll arholiadau yn hwyrach yn y flwyddyn ysgol ac ni chafodd ei atal rhag gwneud hynny o ganlyniad i gyflwr iechyd neu anabledd' (95 allan o 160).

**Ffigur 3.2: Plant 16 oed a hŷn yn gorffen derbyn gofal yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth a rheswm dros ddim cymwysterau**





**Ffynhonnell:** StatsCymru, **Plant 16 oed a throsodd sy'n gorffen derbyn gofal yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a rheswm dros ddim cymwysterau**

## Myfyrwyr â phrofiad o ofal mewn addysg uwch

Cyhoeddodd UCAS ganfyddiadau'r arolwg a gynhaliodd ledled y DU o 8,930 o unigolion â phrofiad o ofal a wnaeth gais i AU yn 2022, ac arolwg o 500 o ymgeiswyr a rannodd bod ganddynt gefndir o ofal cyn dechrau eu hastudiaethau yn ystod hydref 2022.

Mae adroddiad UCAS, **Next Steps: What is the experience of students from a care background in education?**, yn nodi bod 69 y cant o ymgeiswyr sydd â phrofiad o ofal yn pryderu am gyllid wrth ddechrau yn y brifysgol neu'r coleg. Ni chafodd 60 y cant arweiniad ynghylch gwneud cais i AU yn benodol i'w statws fel myfyriwr â phrofiad o ofal pan yn yr ysgol neu'r coleg.

**Ffigur 3.3: Canran yr ymgeiswyr UCAS â phrofiad o ofal yn y DU; 2022**




**Ffynhonnell:** UCAS, **Next Steps: What is the experience of students from a care background in education?**


## Iechyd a llesiant

Er gwaethaf pryderon am ba mor gyffredin yw materion iechyd meddwl a llesiant ymhlith y boblogaeth sydd â phrofiad o ofal, ymddengys na chaiff data swyddogol eu cyhoeddi'n rheolaidd.

Ym mis Ionawr 2020 cyhoeddodd DECIPHer ym Mhrifysgol Caerdydd **Pobl Ifanc sy'n 'Derbyn Gofal' yng Nghymru: canfyddiadau o Arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol ac Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion** Mae'n nodi canfyddiadau pobl ifanc 'sy'n derbyn gofal' yng Nghymru yn ymwneud â llesiant, ymddygiadau risg a pherthyn i'r ysgol. Mae'r arolwg yn un i'w gwblhau ar-lein gan yr unigolyn ei hun ac yn mesur canlyniadau ymddygiadau iechyd a llesiant hunangofnodol ymhlith pobl ifanc 11-16 oed.


Mae'r ddau ffigur isod yn dangos bod pobl ifanc 'sydd â phrofiad o ofal' yn fwy tebygol o fod wedi yfed alcohol yn ystod y 30 diwrnod diwethaf neu wedi dod i gysylltiad â bwlio yn ystod y mis neu ddau diwethaf. Y rhai a roddwyd mewn gofal preswyl oedd yn dangos y cyfraddau uchaf yn y ddau achos.

**Ffigur 3.4: Canran y bobl ifanc 11-16 oed â phrofiad o ofal sydd wedi yfed alcohol yn y 30 diwrnod diwethaf yn seiliedig ar statws y gofal**




**Ffynhonnell:** DECIPHer, **Pobl Ifanc sy'n 'Derbyn Gofal' yng Nghymru: canfyddiadau o Arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol ac Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion**

**Ffigur 3.5: Canran y bobl ifanc 11-16 oed â phrofiad o ofal a gafodd eu bwlio yn ystod y mis neu ddau diwethaf yn ôl statws gofal**





**Ffynhonnell:** DECIPHer, Pobl Ifanc sy'n 'Derbyn Gofal' yng Nghymru: canfyddiadau o Arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol ac Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

# 4. Trawsbynciol

## Gwariant refeniw y gwasanaethau cymdeithasol ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal

Mae gwariant refeniw y gwasanaethau cymdeithasol ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal ar gael ar wefan StatsCymru. Dengys data rhwng 2013-14 a 2022-23 bod **gwariant wedi cynyddu 94 y cant i £476 miliwn yn 2022-23.** Mewn termau real (gan gymryd chwyddiant i ystyriaeth) cynyddodd gwariant 57 y cant rhwng 2013-14 a 2022-23.

**Ffigur 4.1: Cyfanswm gwariant refeniw y gwasanaethau cymdeithasol ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal; 2013-14 i 2022-23 (£ miloedd)**




**Ffynhonnell:** StatsCymru, **Gwariant refeniw gwasanaethau cymdeithasol yn ôl grŵp cleientiaid (£ mil)**

## Y gweithlu

**Gofal Cymdeithasol Cymru** yw'r rheoleiddiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru ac mae'n disgrifio ei **rôl** fel un sy'n cynnwys data ac ymchwil. Mae'n gyfrifol am:

> '...darparu arweinyddiaeth ac arbenigedd cenedlaethol ym maes gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar, gan arwain ar ddatblygu a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, gwella gwasanaethau, data ac ymchwil i wella gofal a chymorth.'

Mae ei **Borth Data** yn darparu data am y **data gweithlu gwasanaethau plant** hyd at 2019. Mae'r ffigyrau hyn ar gyfer 2019 hefyd wedi'u cyhoeddi a rStatsCymru ac yn dangos y nifer o staff cyfwerth ag amser llawn sy'n gweithio mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

**Tabl 1: Staff cyfwerth ag amser llawn mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol; 2012-13 i 2018-19**

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y staff preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc** | 422 | 409 | 379 | 396 | 364 | 386 | 407 |
| **Cyfanswm staff** | 2,487 | 2,485 | 3,259 | 3,191 | 3,230 | 3,265 | 3,509 |

**Ffynhonnell:** StatsCymru, **Staff cyfwerth ag amser llawn adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol (pob blwyddyn)**

Cyhoeddodd Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd **adroddiad y gweithlu gofal cymdeithasol** yn 2022 sy'n trafod timau gwaith cymdeithasol a'u swyddi gwag a throsiant;

> Mae 703 o swyddi gwag mewn timau rheng flaen (451 mewn timau gwaith cymdeithasol plant, 243 mewn timau gwaith cymdeithasol oedolion a phump mewn timau sy'n gweithio gydag oedolion a phlant). (...) Adroddwyd bod 201 o swyddi gwag mewn gofal preswyl i blant a 67 swydd wedi'u cadw'n wag, sef 3.9 y cant o'r swyddi gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn 2021, y ffigurau cyfatebol oedd 141 swydd wag gyda 61 swydd wedi'u cadw'n wag.

Roedd yr adroddiad hefyd yn trafod trosiant fesul maes gwasanaeth yn y sector gofal cymdeithasol yn 2021 i 2022. Mae'n nodi, er bod y ffigurau trosiant yn awgrymu cynnydd ymylol yn nifer y gweithwyr ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru, mae eu hamcangyfrif o gyfanswm y staff yn awgrymu gostyngiad. Mae'r tabl isod yn awgrymu bod meysydd gwasanaeth sy'n gweithio gyda phlant wedi profi newid net cadarnhaol yn 2021 i 2022.

**Tabl 2. Trosiant staff fesul maes gwasanaeth; 2021 i 2022**

| | Staff yn ymuno | Staff yn gadael | Newid net |
|---|---|---|---|
| **Gofal preswyl – plant** | 496 | 372 | +124 |
| **Timau gwaith cymdeithasol – plant** | 802 | 686 | +116 |

**Ffynhonnell:** Gofal Cymdeithasol Cymru, **Adroddiad y gweithlu gofal cymdeithasol** 2022

### Gweithwyr cymdeithasol yn cefnogi gofalwyr maeth

Cyhoeddodd y Rhwydwaith Maethu adroddiad **Cyflwr Gofal Maeth y Genedl 2021: Chwyddwydr ar Gymru**, a oedd yn dadansoddi'r ymatebion i'w arolwg gan 256 o ofalwyr maeth o Gymru. Nododd yr ymatebwyr mai parhad a chapasiti staff gwaith cymdeithasol oedd yr un peth yr hoffent ei newid fwyaf i wneud gofal maeth yn well. Dros y ddwy flynedd flaenorol, roedd gan 53 y cant o ofalwyr maeth yr un gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol, roedd 29 y cant wedi cael dau, roedd 12 y cant wedi cael tri ac roedd 6 y cant wedi cael pedwar neu fwy.

### Llwythi achosion, recriwtio a staff asiantaeth

Mae pennod 2 o adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal,** yn cynnwys adran am weithlu gofal cymdeithasol gwasanaethau plant yr awdurdod lleol fel sy'n berthnasol i blant sydd â phrofiad o ofal (tudalennau 25-37).

Mae'n cynnwys is-adrannau ar lwythi achosion, recriwtio a chadw, a defnyddio staff asiantaeth. Dywed yr adroddiad:

- Nododd ystadegau gan **Gofal Cymdeithasol Cymru** fod nifer y swyddi gwag mewn gofal cymdeithasol plant wedi cynyddu 38.3% yn 2022 i 639, gyda thros 50% ohonynt yn swyddi gwag i weithwyr cymdeithasol cymwysedig
- Dangosodd yr ystadegau hyn hefyd fod Gofal Cymdeithasol Cymru yn amcangyfrif bod 41.9 y cant o'r holl weithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant yn 2022 yn gweithio'n bennaf i asiantaeth, gyda 85.6 y cant o'r gweithwyr asiantaeth hynny yn llenwi swyddi gwag ar gyfer gweithwyr cymdeithasol cymwysedig. *(noder bod y ffigur hwn o 41.9 y cant yn gamgymeriad gan Gofal Cymdeithasol Cymru ymddengys mai'r ffigur gwirioneddol yw 17.5 y cant).*

Roedd dau lythyr gan y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (a dilynol)** ac ymateb gan **Gofal Cymdeithasol Cymru** am yr ystadegau o ran gweithlu a staff asiantaeth.

- Aeth adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ymlaen i wneud dau argymhelliad (wedi'u rhifo 1 a 2) am y gweithlu gofal cymdeithasol ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal.
- Cyfeiriodd yr adroddiad hefyd at argaeledd ystadegau blynyddol yn Lloegr ar y **Gweithlu gwaith cymdeithasol i blant** a'r **Gweithlu gwaith cymdeithasol i blant: cyfradd gadael, llwythi achosion a gweithlu asiantaeth.**

## Eiriolaeth

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i rai grwpiau o blant, yn benodol 'plant sy'n derbyn gofal', 'plant mewn angen' a'r 'rhai sy'n gadael gofal'. Mae'r hawl hwn yn cael ei gyfleu iddynt drwy 'gynnig gweithredol', lle mae eu gweithiwr cymdeithasol yn mynd ati i'w hatgyfeirio i'w darparwr eiriolaeth lleol.

Mae cynlluniau o fewn y **Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol** i gyhoeddi data ar ddarpariaeth eiriolaeth.

Mae Dull Cenedlaethol Llywodraeth Cymru o Eiriolaeth Statudol yn cynnwys Manyleb Gwasanaeth craidd sy'n amlinellu'r gwasanaeth sydd i'w ddarparu mewn contractau rhanbarthol a gomisiynir ar hyd ôl troed Rhanbarth y Bwrdd Iechyd. Ar hyn o bryd, darperir eiriolaeth broffesiynol annibynnol gan y ddau sefydliad eiriolaeth cofrestredig yng Nghymru - **TGP Cymru** a **NYAS Cymru**.

Mae'r ddau sefydliad hyn wedi cyfrannu eu data i'r pedwerydd adroddiad blynyddol Cymru gyfan sy'n manylu ar weithgaredd **Eiriolaeth yn Seiliedig ar Fater Penodol** a'r trydydd yn cynnwys gweithgaredd Cynnig Gweithredol. Er nad yw hyn wedi'i gyhoeddi, darparwyd y data i ni i'w cynnwys yn y briff hwn.

- Yn ystod y flwyddyn cafodd 3,099 o blant a phobl ifanc eu cyfeirio at Eiriolaeth yn Seiliedig ar Fater Penodol ac roedd 1,267 o'r 3,099 hyn yn blant yn derbyn gofal.
- Mae'r 3,099 yn ostyngiad o 18 y cant o'i gymharu â'r llynedd a dyma'r nifer isaf i gael eu cyfeirio at y gwasanaeth Eiriolaeth yn Seiliedig ar Fater Penodol ers i ffigyrau Cymru Gyfan ddechrau.
- Yn ystod y flwyddyn, aeth cyfanswm o 1,329 o blant a phobl ifanc i chwilio am eiriolaeth, nad oeddent erioed wedi chwilio am gymorth eiriolaeth o'r blaen.

Dyma'r nifer isaf i chwilio am y math hwn o eiriolaeth am y tro cyntaf.

- Derbyniwyd 567 o atgyfeiriadau newydd ar gyfer y cynnig gweithredol gan blant sy'n derbyn gofal
- Nifer yr holl blant a phobl ifanc oedd yn gymwys i gael y cynnig gweithredol oedd 2,717 (er na chyflwynwyd data gan yr holl awdurdodau lleol), a nifer y cynigion gweithredol a dderbyniwyd oedd 1,784
- Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, cefnogaeth mewn cyfarfodydd yw'r mater mwyaf poblogaidd sydd angen cefnogaeth eiriolaeth (1,459 o faterion), ac yna cyswllt (672 o faterion) ac yna bywyd gartref (535 o faterion). Y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd y ffynhonnell atgyfeirio fwyaf (1,563), gan gyfrif am 50.4 % o'r holl atgyfeiriadau a dderbyniwyd. Dilynwyd hyn gan hunanatgyfeirio (1,114 atgyfeiriad, yn cyfrif am 36%).
- Dywed y gwasanaethau eu bod wedi sylwi ar gynnydd yn nifer y materion sydd angen cyfranogiad canolig a lefel uchel eleni o'i gymharu â'r llynedd, gyda 151 o faterion angen cyfranogiad lefel ganolig (122 y llynedd) a 54 angen cyfranogiad lefel uchel (48 y llynedd).

Roedd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o god mewn gofal,** yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i ddarparu hawl statudol i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i gymorth eiriolaeth annibynnol, hirdymor ar sail 'optio allan'. Dywedodd:

> Dylid neilltuo eiriolwr i bob plentyn pan fydd yn mynd i mewn i'r system ofal i ddarparu cymorth eiriolaeth hirdymor ar draws ystod o faterion, a dylai barhau hyd nes y bydd y plentyn yn peidio â bod yn 'ymadawr gofal' Gallai plant a phobl ifanc optio allan (ac yna optio i mewn yn ddiweddarach) os dymunant, ond rhaid iddynt fod ag eiriolwr neu ddarparwr penodedig bob amser yn ystod eu cyfnod mewn gofal.

### Eiriolaeth ymweliad preswyl

Dywed y Dull Cenedlaethol o Eiriolaeth Statudol, os oes cartref plant sy'n cael ei redeg gan awdurdod lleol yn y rhanbarth, bydd gwasanaeth eiriolaeth ymweld yn cael ei gynnwys yn y contractau rhanbarthol. Nid yw hyn yn berthnasol i ddarparwyr annibynnol. Yn ôl adroddiad 2019: **Heb eu Gweld, Heb eu Hawliau? Darparu Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol mewn Cartrefi Plant yng Nghymru** amcangyfrifwyd 'nad oes gan y rhan fwyaf o gartrefi plant yn y sector annibynnol drefniadau ar waith ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl' ac 'nad ydynt yn ymwybodol o hawl plant a phobl ifanc yng Nghymru i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol.' Dywed:

*“fod tua 5-10% o gartrefi plant a ddarperir gan y sector annibynnol hefyd yn contractio gwasanaeth ymweliadau eiriolaeth preswyl annibynnol a bod eiriolwyr preswyl yn ymweld â’r sefydliad unwaith neu ddwywaith y mis er mwyn dod i adnabod y plant a darparu cymorth annibynnol os yw’r plant yn dymuno. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o gartrefi plant yn y sector annibynnol drefniadau ar waith ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl.*

# 5. Argaeledd data

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn cyhoeddi ystod o ddata sy'n berthnasol i brofiad gofal:

- Gwasanaethau plant
- Plant sy'n Derbyn Gofal:
- Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol
- Fframwaith Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

Roedd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal,** ac adroddiad y Pwyllgor Deisebau **Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal** yn codi pryderon am argaeledd data. Mae'r ddau wedi gwneud argymhellion.

Mae Pennod 2 o adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (tudalennau 49-54) yn nodi ei ganfyddiadau am gasglu data a dywedodd:

> Mae'r diffyg data cadarn sydd wedi'i gasglu am wahanol agweddau ar y system ofal, ei gweithlu, a phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi bod yn thema gyson ar draws ein prosesau casglu tystiolaeth

Mae'r adroddiad yn rhestru'r hyn y mae'n cyfeirio ato fel y "bylchau mwyaf arwyddocaol yn y data a gyhoeddwyd" (tudalennau 50-52) ac yn awgrymu bod "llawer o'r data hwn yn cael ei gyhoeddi a'i gasglu'n rheolaidd yn Lloegr". Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at waith Helen Hodges a Dan Bristow, ar dudalennau 14-15 adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru 2019, **Dadansoddiad o'r Ffactorau sy'n Cyfrannu at y Cyfraddau Uchel o Ofal yng Nghymru | WCPP.** Mae'n cynnwys tabl o gymharu data am blant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu casglu a'u cyhoeddi ledled y DU.

Cyn cyhoeddi'r adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru am **ragor o wybodaeth ysgrifenedig am gasglu data** a chyfeiriodd Llywodraeth Cymru **at waith oedd ar y gweill.**

**Gwrthododd y Dirprwy Weinidog, Julie Morgan AS, awgrym y Pwyllgor fod** "bylchau mewn data yn cuddio problemau ac yn ein hatal rhag datblygu atebion." **Gwrthododd Llywodraeth Cymru hefyd** awgrym y Pwyllgor ar gyfer diwygio radical yn ymwneud â chasglu data:

> DIWYGIO RADICAL #4 Rhoi dyletswyddau casglu data ffurfiol ar yr holl gyrff cyhoeddus perthnasol, y trydydd sector a darparwyr annibynnol

> i gasglu data cynhwysfawr yn flynyddol o leiaf ar y system ofal, ac o leiaf bob chwarter ar y gweithlu gofal cymdeithasol. Dylai'r data gael ei wirio a'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru - yn flynyddol o leiaf ar gyfer data sy'n ymwneud â'r system ofal, ac yn chwarterol ar gyfer data sy'n ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol - at ddibenion datblygu, gweithredu a gwerthuso polisi.

Ym mis Mehefin 2023, **dywedodd** Llywodraeth Cymru

> Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ystod o ymarferion casglu data mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant Mae'n cynnal tri ymarfer casglu data bob blwyddyn. Mae dau ohonynt ar lefel unigol ac yn cwmpasu pob plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth tra mae'r trydydd yn canolbwyntio'n benodol ar blant sy'n derbyn gofal. Mae hefyd yn cynnal ymarfer casglu data mawr mewn perthynas â pherfformiad a gweithgarwch awdurdodau lleol, sy'n cynnwys dros 50 o eitemau data ar blant yn benodol.  Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd yn siarad â phlant ac yn archwilio eu profiadau fel rhan o'u harolygiadau. Ar hyn o bryd, mae Grŵp Cyflawni'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant yn adolygu'r broses casglu data fel rhan o'i waith ar fetrigau ar gyfer gwasanaethau plant er mwyn mesur cynnydd yn fwy effeithiol wrth inni drawsnewid gwasanaethau plant yng Nghymru.

Yn dilyn yr ymateb hwn, ym mis Gorffennaf 2023 ysgrifennodd y Pwyllgor a **gwnaeth gais**

> Mewn perthynas â'r data na chaiff ei gasglu a'i gyhoeddi fel mater o drefn yng Nghymru ar hyn o bryd (fel y nodir ar dudalennau 50 i 52 o'n hadroddiad ac adroddiad WCPP), hoffem ragor o wybodaeth am y sail resymegol dros haeriad Llywodraeth Cymru nad yw hyn yn angenrheidiol / yn bosibl / yn ddefnyddiol wrth lywio ymateb polisi yng Nghymru.

Ni ddarparwyd hyn ac yn ei **hymateb** dywedodd Llywodraeth Cymru:

> Bydd y Grŵp Cyflawni Trawsnewid Gwasanaethau Plant yn sefydlu is-grŵp a fydd yn cynnwys aelodau sydd â chefndir ystadegol i adolygu'r data a gesglir ar hyn o bryd, y rhwystrau rhag casglu unrhyw ddata a chanfod bylchau mewn casglu data cyfredol. Bydd y Grŵp hefyd yn gweithio i ddeall yn well pa ddata sydd ei angen ac y gellir ei gyflawni i'w gasglu fel rhan o asesiadau anghenion y boblogaeth y gellir eu hystyried wrth gynllunio awdurdodau lleol, gan gynnwys fel rhan o'u strategaethau comisiynu lleoliadau, strategaethau ataliol a darparu gwasanaethau.